# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 07.10.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Peter Read, Gareth Roberts a chynrychiolydd yr Heddlu.

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ADEILAD ROBINSON, FFORDD DEINIOL, BANGOR**

Adroddwyd bod y cais uchod wedi ei ohirio ar gais yr ymgeisydd oherwydd i'r Adran Iechyd Amgylchedd ofyn am ragor o fanylion parthed yr elfen sŵn.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – BASE, 342, STRYD FAWR, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran BASE, 342, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Marc Jones (ymgeisydd)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn (Cyngor Dinas Bangor)
a Miss Jeni Hall

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Base, 342, Stryd Fawr, Bangor i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, darpariaeth ar gyfer dawns a chyflenwi alcohol rhwng 11.00 a 02.00, gyda'r eiddo'n cau am 02.30.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd iddo gymryd les yr eiddo yng Ngorffennaf 2010 ac nad oedd yn ymwybodol pan gymerodd trosodd yr eiddo o unrhyw gwynion yn y gorffennol o sŵn yn dod o ffrynt a chefn yr eiddo. Ar ôl iddo gymryd trosodd, derbyniwyd cwyn am sŵn yn dod o ffrynt yr eiddo, yn bennaf ar nos Iau, ond erbyn hyn cymerwyd camau i oresgyn hyn ac 'roedd y person a gyflwynodd y gŵyn, erbyn hyn wedi tynnu'r gŵyn yn ôl. Cyfeiriodd at yr amodau a gyflwynwyd gan y "sound engineer" ac a anfonwyd at y Swyddog Iechyd Amgylchedd ac 'roedd yn fodlon cydymffurfio â'r rhain yn ogystal ac unrhyw amodau a awgrymir gan y Cyngor. Cyfeiriodd at un ffenestr yn nhoiledau'r merched a oedd yn gyson ar agor, ond erbyn hyn 'roedd y ffenestr wedi ei bordio i atal unrhyw sŵn o'r adeilad. Cymerodd gamau hefyd i gyfyngu ar sŵn y gerddoriaeth o fewn yr eiddo, ar 'roedd yn fodlon os byddai angen, i osod peiriant i fonitro sŵn yn yr adeilad. Teimlai nad oedd y cyfan o'r sŵn yn dod o'r eiddo gan bod eiddo cyffelyb eraill yn yr ardal gyda thrwydded tan 02.00 neu 02.30 ac y gallai'r sŵn ddod o'r eiddo hynny yn ogystal. Nododd bod ei gais am drwydded o 11.00 tan 02.00 bob dydd o'r wythnos ac nad oedd ganddo fwriad i agor yr eiddo ar ddydd Sul. Ar nos Lun cynhelir sesiwn acwstig gyda'r digwyddiad hwnnw'n gorffen fan bellaf am hanner nos. Ar nosweithiau Mawrth a Mercher sy'n nosweithiau poblogaidd gan fyfyrwyr, bydd yr eiddo ar agor tan 02.00 yn ystod yr adegau mae'r colegau'n agored yn unig. Nid yw'n fwriad ganddo i agor tan 02.00 ar nosweithiau Mawrth a Mercher yn ystod yr haf pan fydd y colegau ar gau.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddwyd yn absenoldeb yr Heddlu nad oedd ganddynt dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Nodwyd bod problemau sŵn wedi bodoli yn yr eiddo yn y gorffennol, ond ar ôl i'r ymgeisydd gymryd trosodd yr eiddo yng Ngorffennaf 2010, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Adroddwyd bod yr ymgeisydd yn cytuno i dderbyn amodau yn ymwneud â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau.

Hysbysodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd i'r adran dderbyn cwynion sŵn tros y misoedd diwethaf gan breswylwyr yr ardal parthed cerddoriaeth yn dod o'r eiddo ar nosweithiau Iau a Sadwrn. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r rheolwr newydd ynglyn â'r pryder am y cynnydd mewn lefelau sŵn yn yr ardal pryd y cadarnhaodd y rheolwr iddo drafod mesuriadau sydd am gael eu rhoddi mewn lle gyda "sound engineer" er ceisio lleihau unrhyw sŵn a fyddai'n debygol o effeithio ar y tai tu cefn. Os yw'r camau hyn yn cael eu gweithredu, yna nid oes gan yr adran wrthwynebiad i'r cais yn amodol bod yr amodau perthnasol yn cael eu cynnwys yn y drwydded.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Amheuaeth os oes modd cymryd y camau priodol i atal sŵn yn gyfangwbl o'r eiddo.
- Bod sŵn cerddoriaeth disco i'w glywed gan bod ffenestr yn nhalcen yr eiddo yn agored yn aml.
- Bod un o'r gwrthwynebwyr wedi gorfod gosod gwydr dwbl ychwanegol yn ei heiddo i geisio atal y sŵn.
- Bod sŵn uchel yn dod o'r chwyddleisyddion yn yr eiddo sy'n ei chadw'n effro yn hwyr yn y nos.
- Y byddai agor yr eiddo tan 02.00 yn effeithio ar fwynderau trigolion y tai cyfagos, yn creu achosion o drosedd ac anhrefn ac yn annog ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Y dylai pob un ffenestr yn yr eiddo gael ei fordio i atal sŵn o'r adeilad ac y dylid cael peiriant i fonitro'r sŵn yno hefyd.
- Y dylid ymgymryd â'r holl waith angenrheidiol i atal y sŵn cyn rhyddhau'r drwydded.

.

Ymatebodd yr ymgeisydd i rhai o'r pwyntiau uchod fel a ganlyn –
a) Gallai osod drws pwrpasol yn yr eiddo i atal sŵn gan sicrhau y byddai ar gau yn barhaol.

b) Y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu i geisio goresgyn y problemau sŵn.

Gadawodd yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Base, 342, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn –**
**a) Cerddoriaeth fyw (paragraff E) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 02.00.**
**b) Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 02.00**
**c) Darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 02.00**
**ch) Gwerthu alcohol (paragraff M) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 02.00**
**d) Yr oriau mae'r eiddo'n agored i'r cyhoedd (paragraff O) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 02.30.**
**dd) Bydd unrhyw unigolyn sy'n arfer gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2(1) o atodlen 2 o Ddeddf Diogelwch Preifat 2001) wedi cael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unigolyn o'r fath yn cael ei gyflogi yn yr eiddo o 20.00 awr ymlaen hyd at amser cau bod nos Wener a nos Sadwrn a hefyd ar Suliau Gŵyl y Banc.**
**e) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.**
**f) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiau TCC am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**
**ff) I osod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd -**
**(A) Sŵn**
**i) I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn dirgrynant rhag dianc o'r eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad i'w cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1, bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ac amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell(oedd) lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn sydd wedi ei sefydlu fel uchafswm caniataeedig (gweler (iv) isod).**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni fydd drysau'r cyntedd i'w hagor ond i sicrhau mynediad neu ymadawiad o'r eiddo.**

**Bydd staff i oruchwylio gan sicrhau bod y drysau'n cael eu cadw ar gau cyn belled ag sy'n bosibl tra byddai'r adloniant ymlaen.**
**vi) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22.00 – 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn cwrtil yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vii) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig, yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**viii) Ei bod yn ddyletswydd i ddaliwr trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig neu'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo i ysmygu a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle bo angen.**
**(B) Goleuo**
**i) Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo i'w gosod mewn modd sy'n achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**ii) Ni fydd goleuadau sy'n ymwneud ag unrhyw adloniant i'w gosod mewn modd neu leoliad fel bo niwsans yn cael ei greu mewn unrhyw eiddo gerllaw.**
**g) Y camau a ddisgrifir yn adroddiad y Peiriannydd Sain a anfonwyd at y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd i'w dilyn, yn unol â chyfarwyddyd y gwasanaeth hwnnw.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 3. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – DOMINOS PIZZA, NEUADD WILLIS, 2, STRYD FAWR, BANGOR

**Ar ran Dominos Pizza, 2, Stryd Fawr, Bangor:** Miss Lisa Lee (Ymgeisydd) a Miss Fiona Hanslow (Rheolwraig)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn (Cyngor Dinas Bangor), Mrs Alice Yau, Mr Lop Chi Yau, Mrs Stephanie Jones

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Dominos Pizza, 2, Stryd Fawr, Bangor am drwydded eiddo i ganiatau gwerthu bwyd poeth o 07.00 hyd 05.00 pob dydd o'r wythnos, gyda'r eiddo hefyd yn cau i'r cyhoedd am 05.00.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na'r Adran Safonau Masnach wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad pe cyfyngir yr oriau 'roedd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd bod gan y cwmni reolau caeth o fewn eu holl eiddo i gydweithredu gyda unrhyw amodau a osodir gan yr awdurdod trwyddedu. Nododd bod yr Heddlu yn argymell y dylid lleihau'r oriau i'r hyn y gofynnwyd amdanynt sef bod yr eiddo i'w gau i'r cyhoedd am 01.00 dydd Sul i ddydd Iau ac am 02.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn a bod y lluniaeth ar ôl yr amseroedd hyn tan 05.00 i'w cludo i'r cartrefi mewn ymateb i archebion ffôn. Nid oedd ganddynt fel cwmni wrthwynebiad i'r amseroedd hyn. Gosodwyd system teledu cylch cyfyng o fewn yr eiddo sy'n weithredol 24 awr y dydd. Cadarnhaodd nad oedd alcohol yn cael ei werthu yn yr eiddo ac nad oedd yn fwriad ganddynt chwaith i wneud hynny. Nododd iddynt osod dau fin ysbwriel tu allan i'r eiddo a bod y rhain yn cael eu gwagio gan y staff eu hunain yn ddyddiol. O'r 64 eiddo sydd gan y cwmni, mae oddeutu deg ohonynt yn agor tan 05.00. Mewn ymateb i gwestiwn parthed cwynion am barcio, hysbysodd yr ymgeisydd bod yr elfen hon erbyn hyn wedi ei ddatrys.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddwyd yn absenoldeb yr Heddlu nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cais gyda'r amodau canlynol –
a) Y cyfyngir yr oriau agor i'r cyhoedd rhwng 07.00 a 01.00, dydd Sul i ddydd Iau a rhwng 07.00 a 02.30, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Golygai hyn y byddai'r eiddo hwn yn cyd-fynd â'r mwyafrif o eiddo sy'n gwerthu lluniaeth hwyr eraill ym Mangor.
b) Bod lluniaeth hwyr y nos, ar ôl 01.00, dydd Sul i ddydd Iau ac ar ôl 02.30, dydd Gwener a dydd Sadwrn, mewn ymateb i archebion ffôn fel rhan o wasanaeth cludo'n unig.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Os y caniateir cludo lluniaeth tan 05.00 byddai hynny'n ychwanegu at y broblem o bobl yn bwyta yn hwyr yn y nos ar y strydoedd ac felly'n debygol o amharu ar fwynderau trigolion y tai cyfagos.
- Byddai cerbydau'n mynd a dod o'r safle yn hwyr yn y nos ac yn creu sŵn, yn debygol o greu problemau'n ogystal.
- Y perygl o greu cynsail os y caniateir i'r eiddo werthu lluniaeth mewn ymateb i archebion ffôn ar ôl 01.00 dydd Sul i ddydd Iau ac ar ôl 02.30 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.
- Bod rhai bwytai ym Mangor yn cau am 10.30 yr hwyr a byddai'n fwy rhesymol i'r eiddo hwn hefyd gau yr amser hynny.
- Ysbwriel yn cael ei chwythu o du allan i'r eiddo i erddi eiddo eraill gerllaw.

Ymatebodd yr ymgeisydd i rai o'r pwyntiau uchod fel a ganlyn –
a) Cadarnhaodd bod sefydliadau cyffelyb eraill ganddynt wedi cau i'r cyhoedd ar amser penodol a bod ganddynt reolau caeth parthed gwerthu lluniaeth mewn ymateb i archebion ffôn.
b) Bod yr eiddo ar hyn o bryd yn agor tan 11.00 ac 'roedd yn fodlon derbyn yr oriau a argymhellir gan yr Heddlu gan y byddai'n cyd-fynd â'r mwyafrif o eiddo sy'n gwerthu lluniaeth hwyr eraill ym Mangor.
c) Bod y staff a gyflogir yn yr eiddo yn gorfod ufuddhau i reolau caeth.

Gadawodd yr ymgeisydd, rheolwraig yr eiddo, y Rheolwr Trwyddedu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Dominos Pizza, 2 Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn -**
**a) Lluniaeth hwyr yn y nos (paragraff L) – 23.00 i 01.00 dydd Sul i ddydd Iau a 23.00 i 02.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn.**
**b) Oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd (paragraff O) – 07.00 i 01.00 dydd Sul i ddydd Iau a 07.00 i 02.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn.**
**c) Peidio a chaniatau cludo lluniaeth hwyr o'r eiddo mewn ymateb i archebion ffôn ar ôl 01.00 dydd Sul i ddydd Iau ac ar ôl 02.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.00pm